# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## AGENDA – CYFARFOD MEDI 2017

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 20 Medi 2017 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol RHOSGADFAN** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Rhoddwyd croeso cynnes i bawb gan Nerys Evans y Cadeirydd. Yn bresennol roedd Michelle Williams, Elin Evans, Cyng. Aeron M Jones, Tom Ellis, Gwilym V Thomas, Gwilym Ll Williams, Jason Hunt, Neal Williams a Caryl Elin Lewis (Clerc)<br><br>Les Williams - Yn dilyn y newyddion trist am farwolaeth Les Williams, Aelod Rhosgadfan, cafwyd munud o ddistawrwydd i gofio amdano. Roedd pawb yn gyrru eu cydymdeimlad dwysaf i'r teulu a chadarnhaodd y Clerc iddi fod wedi gyrru cerdyn ar ran y Cyngor. |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Elwyn Jones<br><br>Nid oedd Rhys Owen yn bresennol. |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br><br>C17/0892/24/YA – Islwyn, Rhostryfan – hysbysiad o flaen llaw ar gyfer codi adeilad amaethyddol. Roedd NE yn datgan buddiant yn y cais gan ei bod yn gymydog iddynt. |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 26 Gorff 2017 a materion yn codi**<br>Cytunwyd fod y cofnodion yn gywir, cynigwyd hyn gan EE ac roedd MW yn eilio. |
| 5. | **Materion Misol:**<br><br>a) Meddygfa Rhostryfan<br>Nodwyd mai EJ fydd yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfodydd i drafod dyfodol y Feddygfa. Cyfarfod wedi bod rhwng EJ, Bryn Hughes, AMJ, Dr Edwyn a Bethan, Rheolwraig y Practis. Ymddengys fod gwahaniaeth rhwng yr hyn mae'r Feddygfa ar Bwrdd Iechyd yn ei ddweud. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud nad oes toriad wedi bod i'r cyllid. Mae'r Ffeddygfa yn dweud fod y cyllid wedi ei dorri ac nad ydy'r stafelloedd bellach yn addas. Yn ystod y cyfarfod nododd y Cyngor Iechyd Cymuned fod y Ffeddygfa wedi bod mewn cysylltiad Chwefror 2017 i ddatgan bwriad i gau a holi sut i fynd o gwmpas hyn. Fodd bynnag, nid oedd y Feddygfa wedi dilyn eu cyngor. Y bwrdd Iechyd sydd yn gyfrifol am y penderfyniad i gau Meddygfa, os am gau rhaid dangos a phrofi fod y broses gywir wedi ei dilyn.<br><br>Bu i'r Cyngor Cymuned godi pryderon am ddyfodol y Ffeddygfa tua blwyddyn a hanner yn ôl yn sgil sylwadau nad oedd yn agor ar y dyddiau penodedig. Ni chafwyd llawer o ymateb gan y feddygfa bryd hynny.<br><br>Rhaid i bawb sydd yn anhapus gysylltu gyda'r Cyngor Iechyd Cymunedol yn unigol i leisio barn/cwyno. Penderfynwyd ar y canlynol:<br>• Clerc i drefnu rhoi nodyn yn yr Herald cgap i annog trigolion i leisio barn drwy gysylltu gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned drwy admin@bcchc.org.uk ffon: 01248 679284 cyfeiriad: 11 Llys Castan, Parc Menai, Bangor LL57 4FH.<br>• Aelodau i annog trigolion i gysylltu gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned<br>• Fel Cynghorwyr Cymuned – annog pobl i gysylltu. |

| | |
|---|---|
| | b) Trydan Llanwnda<br>Nododd AMJ nad oes toriad di-rybydd wedi bod yn ddiweddar. Mae'r gwaith ar wneud y surge diverters yn cael ei wneud ar hyn o bryd ac maent wrthi'n torri coed. Bydd y gwaith yn parhau o rŵan hyd at y Nadolig a bydd angen bod yn amyneddgar ond angen cadw llygaid ar y sefyllfa ac adrodd ar unrhyw doriadau drwy ffonio 105.<br>c) Cynllun Cymdeithas Porwyr Uwch Gwyrfai<br>RO i adrodd cyfarfod nesaf yn sgil ei absenoldeb.<br>d) AMJ – LDP Cyngor Gwynedd.<br>Nododd AMJ fod y bleidlais o blaid wedi mynd drwodd o 1 pleidlais. Mae llawer iawn yn siomedig am hyn ac mi roedd protestio ar y dydd. Mae'r cynllun yn argymell adeiladu 8000 o dai newydd yn yr ardaloedd trefol megis Bangor. Tydi hyn ddim am helpu cymunedau gwledig ac nid fydd yn diogelu'r iaith.<br>e) JH - Llwybr Bryngwyn, lle wedi ail wneud y bont ger carreg lwyd, y gwter yn y lon, wedi ei lenwi gyda cherrig man, rhai wedi eu colli lawr y lon.<br>Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn nodi y byddent yn gyrru arolygwr allan i edrych arno.<br>f) AMJ - beth sydd yn digwydd gyda thorri coed Glanrhyd? Roedd oedi oherwydd cyfnod nythu. Ymateb gan Ian Morgan, Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd fel a ganlyn: "Mae rhan helaeth o'n gweithlu wedi ymrwymo i waith ar yr A55 drwy fis Medi a Hydref, sydd yn golygu nad ydynt ar gael i gyflawni'r gwaith i ni. Oherwydd hyn rydym yn y broses o gael pris gan ymgymerwr allanol i wneud y gwaith sydd yn berthnasol i'r Cyngor. Er gwybodaeth mae yna ychydig o ddryswch wedi bod ynglŷn â pherchnogaeth y tir. Mae'n ymddangos bod rhan helaeth ohono wedi trosglwyddo i'r Rheilffordd Ucheldir Cymru wrth iddynt brynu'r hen iard Cyngor, ond gyda stribyn ger y ffordd dal yn gyfrifoldeb ar y Cyngor o bosib. Er bod amheuaeth gyda phwy sydd yn gyfrifol o beth, rwyf am barhau gyda'r gwaith er mwyn gwarchod diogelwch defnyddwyr y ffordd."<br>g) EJ - Pont sy'n mynd draw am dai Bro Gilbert yn beryglus iawn, oes modd cael prosiect i drio ail wneud y bont. Y Rheilffordd sydd berchen ond angen gweld a oes modd cydweithio a chael grantiau i'w thrwsio. RO i edrych mewn i hyn o dan gynllun Uwch Gwyrfai.<br>RO i adrodd arno yn y cyfarfod nesaf yn sgil ei absenoldeb.<br>h) EE - Lon beics, tu ôl i Goat, darn bach cyntaf, tywyll ac yn llithrig yno, angen torri'r coed.<br>Ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn nodi y byddent yn ei glirio gyda 'leaf blower' ac y bydd peiriant glanhau ffordd.<br>i) RO - Tyllau yn y lon o Saron i lawr ac wrth junction bwrdd dwr. Hefyd, Bron Seiont - oes bwriad edrych ar y tyllau yn y lon.<br>Ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn nodi y byddent yn gyrru arolygwr ffyrdd allan i archwilio'r lleoliadau a threfnu'r gwaith trwsio. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Sedd wag Rhosgadfan – Yn sgil y newyddion trist am Les Williams, nododd y Clerc ei bod wedi derbyn cyngor gan Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd. Byddwn y Cyngor angen rhoi hysbyseb o'r sedd wag i fyny, yna os nad oes cais gan 10 unigolyn am etholiad gallwn roi ail hysbyseb i fyny yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb yn y sedd a bydd gennym hawl i gyfethol. Bydd y Clerc yn mynd ati i weithredu. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Cytunwyd y byddai Is Bwyllgor y Fynwent yn cyfarfod noson y cyfarfod nesaf am 6yh. Bydd angen adolygu'r rheolau a ffioedd, penderfynu ar gynnal asesiad risg, thrafod wal y fynwent. |

| | |
|---|---|
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) Adroddiad Ariannol<br>Cyflwynwyd yr adroddiad canlynol:<br><br>**Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 18 Medi 2017**<br><br>**1. Cyfrif Cadw**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: 21,173.19<br>+ Cyngor Gwynedd Praesept 11,600.00<br>+ Llog Banc 1.83<br>+ Ad-daliad TAW HMRC 1,035.69<br>- Trosglwyddiad i gyfrif siec 4,000.00<br>**Balans ar derfyn busnes 18 Medi 2017 29,810.71**<br><br>**2. Cyfrif Siec**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **1,395.62**<br>+ Trosglwyddiad o gyfrif cadw 4,000.00<br>+ Claddiad 330.00<br>+ Claddiad 200.00<br>+ Claddiad 700.00<br>- 101033 Cyllid y Wlad Gorff 104.80<br>- 101034 Cyllid y Wlad Awst 104.80<br>- 101031 Caryl E Lewis Cyflog Gorff 461.05<br>- 101032 Caryl E Lewis Cyflog Awst 461.05<br>- 101037 Canolfan Llanwnda 15.00<br>- 101035 Sion Owen 880.00<br>- 101038 Wyn Williams 1,060.00<br>- 101036 Hughes-Jones, Dyson 180.00<br>**Balans ar derfyn busnes 18 Medi 2017: 3,358.92**<br><br>**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 20 Medi 2017:**<br><br>Cyflog Clerc Medi 461.05<br>Cyllid y Wlad Medi 104.80<br>Petty Cash – Caryl Lewis 350.00<br>Cyngor Gwynedd - Etholiad 357.00<br>**Cyfanswm 1,272.85**<br><br>Trafodwyd yr adroddiad ariannol, roedd pawb yn fodlon gyda'r taliadau.<br><br>Talid PAYE Cyllid y wlad - gan nad oes bosib talu drwy siec i'r Swyddfa Bost mwyach, cytunwyd i wneud y taliad drwy'r bancio ar lein. Bydd yr aelodau sydd â hawl arwyddo yn arwyddo nodyn gan y Clerc ar gyfer cymeradwyo'r taliad, yna Clerc yn gwneud y taliad dros y we.<br><br>b) **Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol**<br>Clerc yn hysbysu Aelodau ei bod yn cael trafferth cael y cyfrifon yn ôl gan yr Archwiliwr Mewnol, nid yw'n sicr beth sydd yn achosi'r oedi ond mae'r ffurflen tua 2 fis yn hwyr yn cael ei gyflwyno i BDO erbyn hyn. Mae'r Clerc mewn trafodaethau gyda BDO ac maent yn ymwybodol o'r sefyllfa. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>C17/0768/24/LL – Neuadd Wen, Dinas – Codi estyniad deulawr to fflat.<br>Dim sylw |

| | |
|---|---|
| | C17/0892/24/YA – Islwyn, Rhostryfan – hysbysiad o flaen llaw ar gyfer codi adeilad amaethyddol.<br>Dim sylw.<br>Bu i NE ddatgan ddiddordeb yn y cais hwn gan ei bod yn gymydog iddynt. |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>HMRC – Llythyr yn nodi na fyddent yn derbyn taliadau siec drwy Swyddfa'r Post bellach.<br><br>Chwarel Moel Tryfan - Llythyr yn nodi dyddiad y cyfarfod nesaf sef 12 Hydref 3yh. Bydd MW, GVT ac AMJ yn mynychu. Nodwyd fod y sefyllfa gyda'r lorïau yn mynd drwy'r pentrefi wedi gwella yn aruthrol.<br><br>Cydweithio gyda Chynghorau cyfagos- E-bost gan OP Huws yn nodi y bydd mewn cysylltiad yn fuan gyda dyddiad cyfarfod nesaf. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>MW - Tŷ Hen, Rhosgadfan - dwr yn llifo i'r lon, oes diweddariad am y sefyllfa?<br>GLLW - Bryn glas, Rhostryfan - Perchennog wedi torri coed a thaflu nhw i'r ffoes, brigau yn beryglus ac mae lorïau olew yn gwrthod mynd yna gan yn difrodi cerbydau.<br>GLLW - Tan yr Onnen, Rhos Isaf - dal heb dorri coed ar y troad.<br>AMJ - Stad Fron Deg, Rhostryfan - wedi derbyn galwad yn ystod tywydd garw. Datblygwr wedi dechrau datblygu mwy o dai ac wedi tynnu wal ochr y llwybr, felly dwr yn dod i mewn i'r tai yng ngwaelod. Datblygwyr wedi blocio peipen ddŵr un o'r tai, gwteri wedi blocio gyda cherrig, AMJ methu mynd i unlle gyda'r datblygwr. Peryg efo'r mwd yn dod i lawr, angen pwyso ar Gyngor Gwynedd i weithredu.<br>AMJ – Gwteri yn Rhosgadfan, lot wedi llenwi gyda gwair ac angen eu glanhau.<br>GVT - Datblygiad yn Ninas, safle Mount Pleasant. Eisiau adeiladu mwy o dai ac mae son y bydd y rhain gyda 'shared access' gyda'r tai sydd yno'n barod. Mae gan y trigolion bryderon am hyn, tydi'r tai presennol ddim eisiau bod yn rhan o'r stad newydd.<br>EE – Lamp yn Ffrwd Cau Du ddim yn gweithio (rhif 58A)<br>GVT – Arwydd cyflymder a lamp Bodfan, Rhosgadfan – angen diweddariad.<br><br>**Dyddiad: 18 Hydref 2017**<br>**Lleoliad: Ysgol RHOSTRYFAN** |